



# SIARTER PLANT A PHOBL IFANC





COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD
GWENT
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# Cyflwyniad



**Helo, Jane Mudd ydw i. Rwy'n falch iawn o fod wedi cael fy newis fel eich Comisiynydd Heddlu a Throsedd.**

Rwyf wedi byw yng Ngwent ar hyd fy oes ac mae'n golygu llawer i mi weithio ar ran y cymunedau yma. Fy swydd i fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yw sicrhau eich bod yn cael y profiad gorau posibl gan Heddlu Gwent. I wneud hynny, mae angen i mi glywed gennych chi. Rwyf eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl am yr heddlu, beth yw eich profiadau chi, a pha mor ddiogel rydych chi'n teimlo lle rydych chi'n byw. Mae'r hyn rydych chi'n ei ddweud yn bwysig, ac rydw i yma i wrando. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae fy nhîm a minnau wedi teithio ledled Gwent i siarad â phlant a phobl ifanc mewn ysgolion, ymweld â grwpiau ieuenctid a chlybiau, ac ymuno yn yr hwyl mewn digwyddiadau mewn cymunedau. Rydych chi wedi bod yn onest ac yn ddewr wrth ddweud wrthyf beth sy'n bwysig o ran teimlo'n ddiogel a chael eich cefnogi gan yr heddlu. Diolch am ymddiried ynof fi. Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar bopeth rydych chi wedi'i ddweud, ac mae'r siarter hon wedi'i llunio gan eich lleisiau chi.

Mae hefyd yn cael ei arwain gan **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**, sy'n amddiffyn hawliau pob plentyn, waeth beth fo'u hil, crefydd neu allu. Gelwir y rhain yn erthyglau ac fe'u hamlygir trwy gydol y siarter hon. Rydych chi wedi dweud wrthyf fod teimlo'n ddiogel gartref, yn yr ysgol ac yn eich cymuned yn bwysig iawn. Rydych chi eisiau i'r heddlu eich trin yn deg ac yn garedig. Os bydd rhywbeth drwg yn digwydd, rydych chi eisiau'r gefnogaeth gywir i'ch helpu i deimlo'n well a symud ymlaen.

Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, rydw i wedi gwneud tri addewid a fydd yn arwain popeth rwy'n ei wneud.

1. Byddaf yn... **Gwrando arnoch chi**
2. Byddaf yn... **Amddiffyn eich hawliau**
3. Byddaf yn... **Gwneud yn siŵr fod y gwasanaethau y gorau y gallant fod**

Rwyf am i bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwent gael y dechrau gorau mewn bywyd ac i allu cyrraedd eu llawn botensial.

Trwy gadw'r addewidion hyn a gweithio gyda chi, credaf y gallwn wneud Gwent yn lle gwell i bawb.

# Gwrando arnoch chi

Ni allwn fod wedi ysgrifennu'r siarter hon heb eich cymorth chi. Rwy'n ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i siarad â mi a fy nhîm i rannu eich meddyliau a'ch profiadau.




**Rhannodd dros 2,000** ohonoch eich meddyliau gyda ni mewn digwyddiadau ymgysylltu

**Cymerodd 1,296** ohonoch yr amser i gwblhau ein harolwg

**Ymunodd 878** ohonoch â gweithdai'r ysgol

**Dywedodd 169** o ddioddefwyr troseddau wrthym am eu profiadau

"Diolch am roi'r cyfle i ni siarad am faterion."

**Gwnaeth 48** ohonoch ein helpu i lunio'r siarter hon drwy grwpiau ffocws



# Byddaf yn gwrando arnoch chi

**Erthygl 12**
Mae gennych yr hawl i gael rhywun i wrando arnoch a'ch cymryd o ddifrif

**Erthygl 13**
Mae gennych yr hawl i fynegi eich meddyliau a chael mynediad at wybodaeth

## Fe ddywedoch chi wrthyf

"Rwy'n credu y dylen nhw **wrando** ar y rhai hynny nad ydynt ganddyn nhw enw da bob amser oherwydd weithiau maen nhw'n cael **eu hanwybyddu** oherwydd eu bod nhw'n 'annibynadwy'."

"Rwy'n credu y dylai'r heddlu ddod i mewn i **ysgolion** a gwneud **gweithdai** gyda ni."




"Dylai'r heddlu fod yn **ymwneud yn fwy** â phobl ifanc i roi gwybod iddyn nhw eu bod yno iddyn nhw."



"Rwy'n credu y dylai Heddlu Gwent a'r heddlu yn gyffredinol **wrando â mwy o ffydd** ar bobl ifanc, gan fy mod yn teimlo weithiau bod pobl yn gwrando a ddim yn gwneud unrhyw beth."

"Mae **Amser Holi Ieuenctid** yn syniad da. Dylech hyrwyddo hyn mewn ysgolion ac o amgylch y gymuned."

## Fy addewid i chi:

- Rhoi mwy o gyfleoedd i chi siarad â mi
- Caniatáu i chi rannu eich meddyliau am yr heddlu yn ddiogel ac yn breifat
- Gwrando ar yr hyn sy'n eich poeni a cheisio eich helpu
- Helpu Heddlu Gwent i ddeall beth sy'n bwysig i chi a'ch cymuned
- Defnyddio eich lleisiau i wneud newidiadau go iawn



# Byddaf yn amddiffyn eich hawliau

## Fe ddywedoch chi wrthyf



"Rydw i wedi cael fy stopio a fy chwilio. Roedd hyn ychydig flynyddoedd yn ôl. Ar y pryd roeddwn i'n ifanc, yn ffôl ac yn meddwl y gallwn i gymryd y byd ymlaen. Gwnaeth y sefyllfa i mi deimlo'n **anghyfforddus**, ond wrth edrych yn ôl ar y sefyllfa, doedd gen i ddim byd i'w guddio ac os oedd stopio a chwilio yn cael ei wneud a hynny'n atal trosedd dydw i ddim yn gweld unrhyw broblem."

"Roeddwn i'n teimlo'n **bryderus**, **yn ofidus** ac yn llawn **cywilydd**."

"Braf gweld eich bod chi'n **herio stereoteipiau** a rhagfarn."

"Roeddwn i'n **teimlo'n anniogel**, roeddwn i'n meddwl fy mod i'n cael fy arestio. Gallen nhw fod wedi dweud pam eu bod nhw yma a pham mai fi oedden nhw yn gwneud hyn iddo."

"Rydw i wedi cael fy stopio gyda fy ffrindiau o'r blaen ac er nad oedden nhw'n '**anghwrtais**' iawn fel y cyfryw i mi roedden nhw'n ofnadwy a digywilydd gyda fy ffrind a oedd yn ddu. Roedd yn gwneud i mi deimlo'n **ddig** ac yn eithaf **ofnus**. Gallen nhw fod wedi bod yn **fwy caredig** ac yn **llai anghwrtais**. Dylech ddeall nad oes angen bod yn arw i gael sylw person ifanc."

**Erthygl 3**
Dylai oedolion bob amser wneud yr hyn sydd orau i chi wrth wneud penderfyniadau a gweithredoedd sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc

**Erthygl 19**
Mae gennych yr hawl i gael eich diogelu rhag trais, cam-drin ac esgeulustod gan oedolion



**Erthygl 37**
Mae gennych yr hawl i gael eich trin yn deg os ydych chi'n torri'r gyfraith

**Erthygl 40**
Mae gennych yr hawl i gael cymorth cyfreithiol os ydych wedi cael eich cyhuddo o dorri'r gyfraith a rhaid eich trin ag urddas a pharch

## Fy addewid i chi:

- Siarad ar eich rhan i sicrhau eich diogelwch a'ch hawliau
- Gwneud yn siŵr bod Heddlu Gwent yn trin pob plentyn a pherson ifanc yn deg
- Defnyddio eich lleisiau i wneud newidiadau go iawn
- Eich cefnogi os ydych chi'n teimlo nad yw'r heddlu wedi eich trin yn deg
- Helpu Heddlu Gwent i ddeall a pharchu plant a phobl ifanc
- Gwneud yn siŵr bod Heddlu Gwent yn diogelu eich hawliau ac yn gofalu am eich anghenion



# Byddaf yn gwneud yn siŵr fod y gwasanaethau y gorau y gallant fod

Erthygl 19
Mae gennych yr hawl i gael eich diogelu rhag trais, cam-drin ac esgeulustod gan oedolion.

Erthygl 39
Dylech gael cymorth arbennig os ydych wedi cael eich cam-drin neu wedi dioddef trosedd. Rhaid i chi dderbyn help a chefnogaeth.

## Fe ddywedoch chi wrthyf

"Roeddwn i'n **ofni** beth fyddai'n digwydd pe bai'r person a ymosododd arnaf yn darganfod."

"Oherwydd fy mod i'n ferch ifanc **na fyddai'n cael ei chymryd o ddifrif**."

"Roeddwn i'n **meddwl** y byddwn i mewn trafferth."

"Mae pobl yn cael llai o amser ar gyfer troseddau mwy difrifol ac yn cael eu gadael allan ar y strydoedd heb **ddiogelu** priodol."

"Rydw i wedi dioddef trosedd, ond wnes i ddim riportio'r drosedd gan **nad oeddwn i'n teimlo y byddwn i'n cael fy nghymryd o ddifrif**."



"Rwy'n credu **nad yw'r heddlu yn cymryd pobl ifanc o ddifrif** gan eu bod yn credu oedolion yn fwy na phlant."

## Fy addewid i chi:

- Sicrhau bod Heddlu Gwent yn darparu gwasanaeth plismona sy'n canolbwyntio ar blant (mae hyn yn golygu y byddant yn trin plant a phobl ifanc gyda pharch)
- Sicrhau eich bod yn cael eich cymryd o ddifrif os byddwch chi'n riportio trosedd
- Rhoi arian i grwpiau lleol sy'n helpu i atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chefnogi pobl sydd wedi cael eu brifo ganddo
- Gweithio gyda sefydliadau eraill i wrando arnoch chi ac ariannu pethau sy'n bwysig i chi
- Gwrando ar eich syniadau i helpu i wella'r gwasanaethau hyn



# Sut y byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi

Mae'r addewidion hyn yn fwy na geiriau yn unig. Byddant yn arwain fy ngwaith a gwaith fy nhîm trwy gydol fy amser yn y swydd a byddaf yn rhannu diweddariadau rheolaidd i ddangos i chi beth rydw i wedi bod yn ei wneud i gadw fy addewidion. Dyma beth fyddaf yn ei wneud:



## Rhannu diweddariadau ar y cyfryngau cymdeithasol

Byddaf yn postio ar yr apiau rydych chi'n eu defnyddio fwyaf, fel Instagram a TikTok. Gallai'r rhain fod yn fideos byr neu graffeg hwyliog sy'n dangos yr hyn rydw i wedi bod yn gweithio arno.

## Cwrdd â chi yn bersonol

Byddaf yn dod o hyd i fwy o gyfleoedd i ddod i siarad â chi wyneb yn wyneb. Fel rhan o fy rhaglen ymgysylltu ieuenctid ar draws Gwent, bydd fy nhîm a minnau yn ymweld â mwy o ysgolion a grwpiau ieuenctid.

## Cynnal digwyddiadau ieuenctid

Bob blwyddyn, byddaf yn cynnal digwyddiad arbennig, fel Hawl i Holi Ieuenctid, lle gallwch ddweud wrthyf beth sy'n bwysig i chi a gofyn cwestiynau i mi yn uniongyrchol.

## Rhoi cyfle i chi holi cwestiynau i'r Prif Gwnstabl

Byddwch yn gallu anfon eich cwestiynau i'r Prif Gwnstabl. Byddaf yn cofnodi ei atebion ac yn rhannu'r fideo gyda chi.

## Creu cynnwys ar eich cyfer chi

Byddaf yn creu fideos a deunyddiau eraill sy'n esbonio sut rydw i'n mynd ati i wneud y pethau y dywedais i y byddwn i'n eu gwneud. Gellir rhannu'r rhain mewn ysgolion a grwpiau ieuenctid.








# Cymorth a chefnogaeth



**Rydych chi wedi dweud wrthyf nad ydych bob amser yn gwybod ble i fynd am gymorth a chefnogaeth. Mae yna lawer o sefydliadau a all eich helpu chi.**

## Heddlu Gwent

**Mewn argyfwng ffoniwch 999.**
Ar gyfer achosion nad ydynt yn argyfwng ffôn **101**
**www.gwent.police.uk**
Facebook DM **@heddlugwent**

## Cymorth i Ddioddefwyr

Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn rhoi cymorth cyfrinachol am ddim i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan drosedd.
Ffôn **0300 303 5638**
E-bost: **GwentVCU@victimsupport.org.uk**
**www.cymorthiddioddefwyr.org.uk**

## Fearless

Mae Fearless yn galluogi pobl ifanc i drosglwyddo gwybodaeth am drosedd yn gwbl ddienw.
**crimestoppers-uk.org/fearless**
**0800 555 111**

## Meic

Meic yw'r gwasanaeth llinell gymorth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru.
**080 880 23456**
Testun **07943 114 449**
WhatsApp **080 880 23456**
**www.meiccymru.org**

## Byw Heb Ofn

Mae Byw Heb Ofn yn darparu cymorth a chyngor am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
**0808 80 10 800**
Testun: **07860077333**
**info@livefearfreehelpline.wales**
**www.llyw.cymru/byw-heb-ofn**

## Fy Swyddfa

Os ydych chi eisiau cysylltu â mi am unrhyw faterion yn y siarter, neu am Heddlu Gwent a'r gwasanaethau rwyf yn eu hariannu, gallwch gysylltu â mi yn:

**Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Pencadlys Heddlu Gwent, Llantarnam, Cwmbrân, Torfaen, NP44 3FW**

**01633 642200**

**commissioner@gwent.police.uk**

**www.gwent.pcc.police.uk**

**Dilynwch ni @GwentPCC**

